

SLAM

Diwrnod
Sbort Lles Antur Mwy

Lle: Y Ganolfan, Llanberis
Pryd: 1.30-4y.p 28/2/2019
Cyswllt: susanpanthyfryd@btinternet.com, 07769279231

Y mis nesaf - Deiniolen

**Oedfaon yn Nhŷ Elidir
Ionawr 27**

5.00 p.m. - Mr John Roberts

Chwefror 3

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Chwefror 10

5.00 p.m. - Y Parchg Eric Jones

Chwefror 17

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 27

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Chwefror 3

10.00 a.m. - Y Parchg Harri Parri

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Chwefror 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 783
20 Ionawr, 2019

Gronyn

Mary a Domingo



Gallasai canlyniad un o gemau Uwch Gynghrair Lloegr bnawn ddoe fod: St Mary's Young Men's Association Football Club 2 - St Domingo Football Club 1. Mae'n dipyn haws dweud 'Southampton 2 - Everton 1'.

Mae'r gyfrol *Thank God for Football* yn olrhain hanes dwsin o glybiau sydd wedi chwarae yn Uwch Gynghrair Lloegr a ffurfiwyd yn gysylltiedig ag eglwys. Dau ohonynt yw Everton (a ffurfiwyd yn 1878 dan nawdd Wesleaid capel St Domingo's) a Southampton (a ffurfiwyd yn 1885 dan nawdd eglwys Anglicanaidd St Mary's). Diddorol yw nodi bod y cyswllt wedi ei gydnabod trwy roi'r enw 'St Mary's' i stadiwm newydd Southampton yn 2001.

Peter Lupson yw awdur y gyfrol fach ddifyr hon, ac y mae'r bennod ar glwb Southampton yn arbennig o ddiddorol. Basil Wilberforce oedd rheithor St Mary's pan ffurfiwyd y tîm pêl droed gan aelodau cymdeithas gwŷr ifanc yr eglwys. Roedd Basil yn ŵyr i William Wilberforce a fu'n arwain yr ymgyrch i ddileu Caethwasiaeth oddi mewn i'r Ymerodraeth Brydeinig, ac yn fab i Samuel Wilberforce a fu'n Esgob Rhydychen. Cawsai Basil ei addysg yn Ysgol Fonedd Eton ac un o golegau Rhydychen. Deuai felly o gefndir breintiedig, â'r Frenhines Fictoria yn fam fedydd iddo hyd yn oed. Ond yr hyn sy'n ddiddorol yw ei fod ef, fel cymaint o rai tebyg, yn gweinigogaethu mewn ardaloedd tlawd ac anodd. Un wedd ar weinigogaeth Wilberforce a'i

debyg oedd eu pwyslais ar yr 'Efengyl gyhyrog'. Roeddent yn darparu pob math o weithgareddau er mwyn denu pobl oddi wrth fywyd ofer, anfoesol a gwastraffus. Yr oedd i chwaraeon le amlwg am eu bod yn argyhoeddedig fod yr Efengyl yn cynnig bywyd iach, yn gorfforol yn ogystal ag ysbrydol. Roedd y term 'Efengyl gyhyrog' yn ddiethr i mi er fy mod yn gyfarwydd â defnyddio chwaraeon i genhadu neu rannu'r Efengyl. Yn sicr, mae Cynllun Efe wedi hen arfer â gwneud hynny.

Ond yr hyn a werthfawrogais fwyaf o ddarllen am glwb pêl droed St Mary's oedd y dyfyniadau o gylchgrawn plwyfol Basil Wilberforce sy'n dangos fod ei bwyslais ef ar les ysbrydol ei blwyfolion ac aelodau Cymdeithas Gwŷr Ifanc yr eglwys. "Cymdeithas bersonol â Christ yw'r gyfrinach ... Mae bod yn Gristion yn fwy na dim ond proffesu ffydd neu gydymffurfio â chred; mae'n golygu cyswllt agos rhwng Crist a'r enaid; nid efelychu esiampl berffaith, ond cael ysbryd nerthol o'n mewn." Roedd Wilberforce wedi ei deall i'r dim. Ar y naill law, mae'n pwysleisio nad dod i oedfa yw dechrau a diwedd Cristnogaeth, ond ar y llaw arall mae'n gofidio erbyn 1888 nad yw pob aelod o'r tîm pêl droed yn mynychu oedfa neu'n cymryd rhan yng ngwaith yr eglwys leol. Iddo ef, perthynas bersonol a Christ trwy ffydd yw'r man cychwyn, a hynny'n arwain at addoli a gwasanaethu Crist o fewn cymdeithas yr eglwys. Mae hynny'r un mor wir i ninnau heddiw.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch a Rehoboth (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Am 2.00 o'r gloch bydd oedfa yng ngofal y Parchg Ddr Sion Aled Owen.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg John Lewis Jones.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd, yn arbennig ein haelodau sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Mae rhai wedi bod yno ers sawl wythnos., a dymunwn i bob un ohonynt wellhad buan. Gobeithio eu bod hwy a'u hanwyliaid yn profi nerth a chymorth Duw yn gynhaliath real iddynt bob dydd.

Balm o Salm



'Pan ddaeth Israel allan o'r Aifft, tŷ Jacob o blith pobl estron eu hiaith, daeth Jwda **BYW Y BEIBL** yn gysegr iddo, ac Israel yn arglwyddiaeth iddo. Edrychodd y môr a chilio, a throdd yr Iorddonen yn ei hôl. Neidiodd y mynyddoedd fel hyrddod, a'r brynau fel ŵyn. Beth sydd arnat, fôr, dy fod yn cilio, a'r Iorddonen, dy fod yn troi'n ôl? Pam, fynyddoedd, yr ydych yn neidio fel hyrddod, a chwithau'r brynau, fel ŵyn? Cryna, O ddaear, ym mhresenoldeb yr Arglwydd, ym mhresenoldeb Duw Jacob, sy'n troi'r graig yn llyn dŵr a'r callestr yn ffynhonnau' (Salm 114).

Gweddiwn

Daliwn i weddio dros ein gilydd ar ddechrau wythnos newydd. Diolch am allu gwneud hynny gan wybod fod ein Duw yn gwrandao ac yn ateb gweddiau ei blant.

Gweddiwn dros bob cynulleidfâ o bobl Dduw sy'n cyfarfod yma ac acw yn ein gwlad i addoli heddiw, ac yn arbennig pob un o gynulleidfaedd yr Ofalaeth hon. Boed i Dduw ein cofio a'n nerthui roi iddo Ef ei hun bob clod a mawl.

Cymdeithas Undebol

Yng Nghymdeithas Undebol Llanberis nos Fawrth diwethaf cafwyd cyflwyniad diddorol gan Mr Rolant Wynne, Llanrug i'r pentref y cafodd ei fagu ynddo, sef Llanfeydd. Trwy sgwrs a llun cawsom hanes y pentref a rhai o'i gymeriadau nodedig, a golwg ar gefndir diwylliannol a chrefyddol ac economaidd Llanfeydd ddoe a heddiw.

CIC

Bydd CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener nesaf, Ionawr 25.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Joyce Jones, Plas Pengwaith, Llanberis a Gareth a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb annwyl, Mrs Marian Roberts, a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ddydd Gwener, Ionawr 18.

Cynhelir y gwasanaeth angladd yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch ddydd Gwener yr wythnos hon, Ionawr 25.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Ionawr 30 yng Nghapel Coffa Cyffordd Llandudno.

Ceir anerchiad gan y Parchg Jill-Hailey Harris, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Bydd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn.

Ebeneser

Dros yr wythnosau diwethaf, ers gwerthu adeiladau Ebeneser, Deiniolen, mae cryn waith wedi ei wneud i ofalu am wared â'r holl nwyddau a oedd yno. Mae'r gwaith hwn bron wedi ei orffen erbyn hyn, a dymunwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu mewn unrhyw ffordd i roi trefn ar bethau ac ymateb i geisiadau'r aelodau i brynu'r gwahanol nwyddau. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu help.

Cyfarfu Pwyllgor Capel Ebeneser nos Fercher diwethaf er mwyn cwblhau'r trefniadau ar gyfer y gwahanol nwyddau oedd yn weddill. Yn ystod y cyfarfod hefyd diolchwyd i Mr Gwyn Parri am ei holl waith dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf ynglŷn â'r adeiladau. Roedd yr holl drafodaethau a threfniadau yn golygu wythnosau o waith manwl, a gwerthfawrogwn y cyfan yn fawr. Mae Gwyn bellach wedi ymddeol o swydd Ysgrifennydd yr eglwys, a diolchwn iddo am ei arweiniad a'i gymorth.

Bwrlwm

Cynhelir Bwrlwm Bethlehem yn y festri rhwng 2.15 a 3.45 o'r gloch bawn Iau, Ionawr 24.

Cwrs Ieuencid

Cynhelir y Cwrs Ieuencid nesaf yng Ngholeg y Bala (ar gyfer ieuencid Blwyddyn Ysgol 7 i 11) o nos Wener i ddydd Sul, Mawrth 1-3. Holwch Susan neu'r Gweinidog am ragor o fanylion.

Cefnogi Efe

Gwnaed elw o £295 yng Nghyflwyniad Nadolig Côr Capel Coch a Chyfeillion a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Padarn nos Sul, Rhagfyr 23. Mae'r arian wedi ei roi i Gynllun Efe. Ar ran Cynllun Efe, felly, diolch yn fawr iawn am y gefnogaeth.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER
Yn Nhŷ Elidir

Dydd Sul, Ionawr 27: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr John Roberts.

CAPEL COCH A REHOBOTH,
A NANT PADARN

Dydd Sul, Ionawr 27: Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Llun, Ionawr 21: Te Bach am 2.30 o'r gloch.

Nos Wener, Ionawr 25: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 27: Yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a'r Gweinidog am 5.00 o'r och.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Ionawr 24: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 27: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa yng ngofal y Gweinidog am 2.00 o'r gloch.